



## Y Salmu

Mae Llyfr y Salmu (a adwaenir hefyd fel y Sallwyr) yn gasgliad o 150 o gerddi, gweddiâu, emynau a myfyrdodau. Mae Llyfr y Salmu yn cynnwys pum casgliad o Salmu (1-41; 42-72; 73-89; 90-106; 107-150) sydd, mae'n amlwg wedi eu casglu at ei gilydd ar wahanol amserau oherwydd mae rhai yn ddyblygiadau. Mae pob un o'r Salmu wedi eu cyfeirio at Dduw, naill ai i roi diolch am yr hyn roedd wedi ei wneud neu i greffu am gymorth mewn argyfwng. Mae'r Salmu yn rhoi cipolwg i ni ar fywyd ac ysbrydolrwydd pobl Dduw ac maent wedi eu defnyddio'n barhaus mewn addoliad Iddewig a Christnogol am dros 2,000 o flynyddoedd. Am fod y salmu mor bersonol ac yn portreadu'r fath angerdd dynol, maent yn aros mor bwerus heddiw ag erioed.



### Pa mor hir wnaiff o gymryd?

**Amser darllen:** 5 awr – dyma un o'r llyfrau anoddaf i'w ddarllen ar un eisteddiad, ac efallai y bydd yn rhaid ichi ei gymryd yn araf neu ddewis rhai salmu yn fwriadol a gadael eraill.

**Yn brin o amser?** Darllenwch yn unig 1; 41; 42; 72; 73; 89; 90; 106; 107 a 150 (dyma'r salmu cyntaf ac olaf yn y pum casgliad a bydd yn rhoi syniad i chi sut mae'r llyfr yn gweithio fel llyfr, yn hytrach nag fel 150 salm wahanol).



### Unrhyw beth anodd?

Mae darllen llyfr y salmu fel llyfr yn anodd. Mae'n un o ychydig lyfrau'r Beibl na chafodd ei gynllunio i'w ddarllen fel llyfr – mae'n flodeugerdd. Yr hyn gewch chi wrth ei ddarllen fel llyfr yw'r ymdeimlad o'r angerdd a'r ffordd glyfar mae'r salmu wedi eu gosod at ei gilydd yn y flodeugerdd.



### Dosbarth

Barddoniaeth



### Dyfyniadau i ysbrydoli

Mae hi bron yn amhosibl dewis ychydig o adnodau o'r salmu - dyma ychydig o ffefrynnau.

Gwyn eu byd y sawl nad sy'n dilyn cyngor y drygionus nad yn ymdroi hyd ffyrdd pechaduriaid nac yn eistedd ar sedd gwatwarwyr, <sup>2</sup>ond sy'n cael ei hyfrydwch yng nghyfraith yr Arglwydd ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos. (*Salm 1.1-2*)

Y mae'r nefoedd yn mynegi gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo. (*Salm 19.1*)

Y mae dy air yn llusern i'm troed ac yn oleuni i'm llwybr. (*Salm 119.105*)

Ti a greodd fy ymysgaroedd, a'm llunio yng nghroth fy mam. Clodforaf di, oherwydd yr wyt yn ofnadwy a rhyfeddol. (*Salm 139.13-14a*)



## Ynglŷn â'r Awdur

Mae llawer o salmau yn y Sallwyr yn cael eu priodoli ar y cychwyn i Dafydd, fodd bynnag mae ehangder yr ystod o ddigwyddiadau hanesyddol y cyfeirir atynt yn y salmau yn codi cwestiynau a allai Dafydd fod wedi eu hysgrifennu i gyd. Mae'n ymddangos fod y salmau wedi eu hysgrifennu drwy hanes Israel ac wedi eu hysbrydoli gan y Brenin Dafydd, cerddor mawr ac unigolyn o ffydd.



## Ynglŷn â'r cyfnod

Ysgrifennwyd y Salmau drwy gyfnod yr Hen Destament. Ar un pen i'r sbectrwm, un o'r caneuon cynharaf yw cân y credir fod Miriam wedi ei chanu i Moses wrth y Môr Coch (gweler Exodus 15.1-21). Ym mhen arall y llinell amser mae llawer o ysgolheigion yn credu fod Salm 30 wedi ei hysgrifennu pan gafodd y Deml ei hailgysegru ar ôl gwrthryfel y Macabeiaid yn 164 Cyn Crist.

Cred llawer fod y Sallwyr wedi eu casglu yn yr ail ganrif Cyn Crist gyda'r pum casgliad yn cael eu tynnu at ei gilydd yr adeg honno.

### *Beth oedd pobl yn ei deimlo?*

Darllenwch y Salmau a chanfod beth roedd pobl yn ei deimlo – mae'r salmau yn datgelu ystod eang o deimladau, o lawenydd pur (Salm 150) i anobaith llwyr (Salm 88) gyda llawer o deimladau rhyngddydd nhw.

### *Llyfrau eraill wedi'u gosod tua'r cyfnod yma*

Yn nhermau salmau unigol a'u dyddiadau, mae'r llyfr mae'n bur debyg yn rhychwantu bron iawn y cyfan o'r Hen Destament.



## Sut cafodd ei strwythuro?

Mae pum adran i lyfr y Salmau neu fel mae rhai pobl yn eu galw, 'llyfrau'. Mae pob un yn gorffen gyda mawlgan neu emyn o fawl i Dduw (41.13; 72.20; 89.52; 106.48 gyda'r 'llyfr' olaf yn gorffen gyda mawlgan Salm gyfan, Salm 150). Mae rhai hefyd yn dadlau fod Salmau 1-2 yn gweithredu fel cyflwyniad i'r llyfr cyfan.

**Llyfr 1: 1-41** – mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn salmau galarnad

**Llyfr 2: 42-72** – mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn salmau galarnad

**Llyfr 3: 73-89** – mae'r llyfr hwn yn gymysgedd cyfatal o alarnadau a mathau eraill o salmau

**Llyfr 4: 90-106** – mae'r llyfr hwn yn cynnwys mwy o emynau a salmau o ddiolch nag o alarnadau

**Llyfr 5: 107-150** – mae'r llyfr hwn hefyd yn cynnwys mwy o emynau a salmau o ddiolch nag o alarnadau.

Yn ogystal â'r pump casgliad mawr byddwch hefyd yn sylwi ar nifer o gasgliadau llai (fel Salmau'r Esgyniad 120 – 134). Credir fod casgliadau llai wedi eu casglu at ei gilydd i ffurfio'r casgliadau mwy sydd gennym ni nawr.

Byddwch yn sylwi fod gan y Sallwyr fwy o alarnadau ar y cychwyn a mwy o emynau a salmau diolchgarwch ar y diwedd. Canol union y Sallwyr (o ran mesur y testun yn hytrach na nifer y salmau) yw Salm 88 – yr unig salm o anobaith llwyr. Troir y cornel a down o hyd i lawer mwy o fawl. Mae'n bosibl fod y Sallwyr yn bwriadu eich cymryd chi, y darlennydd, o alarnad i fawl yn strwythur y casgliad.



## Pa fath o Lyfr ydy o?

Mae'n flodeugerdd o farddoniaeth ac fel pob blodeugerdd mae pob math o gerddi ynddi. Mae pobl weithiau'n ceisio grwpio gwahanol fathau o gerddi at ei gilydd, mae hynny'n cynnwys y mathau hyn:

- Emynau - mae'r rhain yn dechrau gyda mawl, yn disgrifio rhywbeth am Dduw sy'n achosi'r mawl ac y gorffen gyda mawl.
- Galarnadau - mae'r rhain yn alarnadau cymunedol ac unigol, ac maent yn rhoi'r rheswm am yr alarnad ac yn crefu am gymorth Duw.

Mae'r rhan fwyaf o'r salmau hyn yn diweddu ar nodyn cadarnhaol gydag argyhoeddiad y bydd Duw yn helpu - yr unig eithriad yw Salm 88 sy'n gorffen yr un mor bruddglwyfus ac y dechreuodd.

- Salmau Brenhinol – salmau sy'n canolbwyntio ar Frenin Israel
- Salmau diolchgarwch – mae'r rhain yn diolch am rhywbeth a wnaeth Duw (o'u cyferbynnu â'r emynau sy'n fynegiant o gyflwyniadau cyffredinol o fawl).



## Cadwch lygad am...

Disgrifir a chyhoeddir natur Duw dro ar ôl tro drwy'r salmau – pa ddarlun o Dduw gewch chi wrth i chi ddarllen eich ffordd drwyddynt?

Mae bron bob un o'r salmau galarnad, dim gwahaniaeth pa mor anobeithiol ydynt yn gorffen gyda datganiad o hyder yn Nuw. A yw'r hyder dwfn yma yn newid y teimlad o anobaith?

Mae rhai salmau a rhannau o salmau yn cael eu hailadrodd drwy'r Sallwyr – chwiliwch am y rhain a gofynnwch pam y dylai hyn fod.



## Beth allai hyn ei olygu i mi?

Sylwch ar y berthynas rhwng Duw a'i bobl yn y Salmau. Hyd yn oed mewn cyfnodau o anobaith llwyr roedd pobl yn siarad â Duw, yn galw arno ac yn gofyn am ei gymorth. Mae'n teimlo weithiau fel pe bai dim na fedrent ei ddweud wrtho. Sut mae hyn yn cymharu â'ch bywyd gweddigar chi gyda Duw?.

Ceisiwch ysgrifennu salm – beth fydddech chi'n ei gynnwys ynddi?



## Cwestiynau grŵp trafod

- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr roeddech chi'n arbennig o hoff ohono neu wnaeth eich ysbrydoli?
- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr nad oeddech yn ei hoffi neu oedd yn eich poeni?
- Beth oeddech *chi'n* ei gredu roedd y llyfr yn ei drafod?
- Meddyliwch am y ffordd rydych wedi crynhoi'r Sallwyr ac wedyn meddyliwch am yr emynau a'r caneuon rydym ni'n eu canu yn ein heglwysi heddiw. Pe baem yn eu rhoi at ei gilydd sut bydddech chi'n eu crynhoi? A oes tebygrwydd/ gwahaniaethau rhyngddynt?
- Pam ydych chi'n credu fod y Salmau wedi bod mor bwysig am y 2,000 o flynyddoedd yn hanes Cristnogaeth? Beth maent wedi eu darparu nad yw rhannau eraill o'r Beibl wedi ei wneud?
- Ydych chi'n darllen/canu/gweddio'r salmau ddigon yn eich eglwys? Pe baech chi am wneud mwy o ddefnydd ohonynt, pa syniadau fyddai gennych i wneud hynny?
- Mae strwythur y Sallwyr yn awgrymu fod y casglwyr wedi gosod 150 o salmau gyda'i gilydd gyda bwriad pendant. Allwch chi ddirnad beth oedd y bwriad hwnnw?
- Wnaethoch chi ddarllen unrhyw beth yn y llyfr wnaeth eich cyffwrdd, ehangu eich ffydd neu wneud i chi feddwl yn ddyfnach am eich bywyd a sut rydych yn ei fyw?



Gallwch drydar lluniau, storïau neu gwestiynau o'ch clwb llyfrau gan ddefnyddio'r hashnod [#clwblyfrauibeibl](#) a tag [@cymybeibl](#).

**Dod** â'r Beibl yn **fyw**

**B** Cymdeithas  
y Beibl